**LC409**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) 1985, mewn perthynas ag esemptio rhag y gofyn i dendro os yw awdurdod lleol yn creu cytundeb i ddarparu gwasanaeth bysiau lleol yn ddarostyngedig i gymhorthdal gwasanaeth.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid yw'r rhaglith yn cydymffurfio â pharagraff 2.23A y *Statutory Instrument Practice*. Mae'r paragraff hwnnw yn mynnu bod y darpariaethau a ddyfynnir yn cynnwys pob darpariaeth sy'n angenrheidiol i adnabod y person sydd wedi'i awdurdodi i wneud y gorchymyn. Felly, gan nad yw adran 91 Deddf 1985 yn nodi pwy a gaiff wneud "regulations" neu reoliadau, dylai troednodyn (b) nodi bod adran 137(1) yn diffinio "regulations" yn nhermau rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae cyfeiriad o'r fath yn angenrheidiol i gyflwyno'r cyfeiriad yn y troednodyn at y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, sy'n nodi bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyn o beth wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad.

Os gwneir y diwygiad sy'n angenrheidiol drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau, ni fydd dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y bydd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt. Fodd bynnag, os na wneir y fath gywiriad, mae hyn yn fater y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig iddo ar y sail bod methu cydymffurfio â gofynion y *Statutory Instrument Practice* yn ddrafftio diffygiol.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'n bosibl bod y cyfeiriad yn llinell olaf y nodyn esboniadol at "unrhyw" flwyddyn ariannol ychydig yn gamarweiniol. O dan reoliad 3 (fel y'i amnewidwyd) gwneir y cyfrifiad

perthnasol ond mewn perthynas â thaliadau yn y flwyddyn ariannol y deuir i'r cytundeb ynddi.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Chwefror 2002